**PWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD**
**15 CHWEFROR 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell dros Zoom am 9.30am ddydd Mercher, 15 Chwefror 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Jason Shallcross, Antony Wren, Sam Swash

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Y Cynghorydd Andy Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Cynllun Arall), y Cynghorydd Gwyneth Ellis (Cyngor Sir Ddinbych), y Cynghorydd Anthony Wedlake (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), yn absennol o Eitem 8 ymlaen), a Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun, absennol o Eitem 9 ymlaen).

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Elaine Williams (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau), Phil Pumford (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint).

Panel Ymgynghorol: Philip Latham (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Karen McWilliam (Cynghorydd Annibynnol – Aon), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa – Mercer), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr: Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth Cronfa Clwyd), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau – absennol o Eitem 4 ymlaen), Sandy Dickson (Cynghorydd Buddsoddi – Mercer), Hill Gaston (Pennaeth Buddsoddi Cynaliadwy y DU – Mercer), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddiadau Graddedig), Megan Fellowes (Dadansoddwr Actiwaraidd – Mercer), a Morgan Nancarrow (Cynorthwyydd Gweinyddol Llywodraethu – cymryd cofnodion).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynorthwyydd Gweinyddol Llywodraethu newydd, Miss Nancarrow, a fyddai'n cymryd cofnodion, a diolchodd i Miss Fellowes am ei hamser yn cymryd cofnodion Pwyllgorau dros y blynyddoedd.

35. **DATGAN CYSYLLTIADAU (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)**

Gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol gan y Cadeirydd i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau parthed y Gronfa, ar wahân i'r rheiny a gofnodwyd eisoes yng nghofrestr y Gronfa.

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

36. **COFNODION 23 TACHWEDD 2022**

Cyn derbyn y cofnodion, cododd Pennaeth y Gronfa, Mr Latham, y mater a drafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol ynglŷn â pha un a ddylai cyfarfodydd Pwyllgorau yn y dyfodol gael eu cynnal o bell neu ar ffurf hybrid. Crybwyllwyd hyn gyda Chyngor Sir y Fflint; fodd bynnag, daethpwyd i'r casgliad nad oedd cyfarfodydd hybrid yn ymarferol ar hyn o bryd. Yr oedd Mr Latham wedi dosbarthu holiadur byr cyn y cyfarfod er mwyn gwneud arolwg o'r hyn yr oedd aelodau'r Pwyllgor yn ei ffafrio. Nododd fod aelodau Cyngor Sir y Fflint wedi derbyn arolwg hirach yn flaenorol ar y pwnc gan Wasanaethau Pwyllgorau, ond gofynnodd i holl Aelodau'r Pwyllgor ymateb er mwyn adlewyrchu safbwyntiau'r Pwyllgor cyfan.

Parthed y cofnodion, dywedodd Pennaeth y Gronfa – gan gyfeirio at y wybodaeth ddiweddaraf am God Stiwardiaeth y Cyngor Adrodd Ariannol ar dudalen 11 – fod y Gronfa wedi cael gwybod yn union cyn dechrau'r cyfarfod hwn bod cais Cod Stiwardiaeth y Gronfa wedi bod yn llwyddiannus.

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022.

**PENDERFYNWYD:**

Cafodd cofnodion cyfarfod 23 Tachwedd 2022 eu derbyn a'u cymeradwyo a bydd y Cadeirydd yn eu llofnodi.

37. **Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DDADANSODDI NEWID HINSAWDD**

Dywedodd y Cadeirydd fod y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd a dadansoddeg hinsawdd wedi eu trafod yn fanwl yn y sesiwn Hyfforddiant Hanfodol ddiweddar a gynhaliwyd ar 1 Chwefror, ac, o ystyried bod yr adroddiad ar gyfer nodi'n unig, gofynnodd am gyfyngu cwestiynau / sylwadau i eglurhad o wybodaeth yn yr adroddiad a meysydd dealltwriaeth.

Crynhowyd prif bwyntiau Adroddiad Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd agoriadol arfaethedig y Gronfa gan Mr Gaston o Mercer, a'r dadansoddiad o adnodd Dadansoddiad ar gyfer Trawsnewid Hinsawdd. Dywedodd fod dull gweithredu'r Gronfa mewn perthynas â newid hinsawdd wedi ei ddogfennu'n dda yn Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa o ran credoau, prosesau a monitro ôl troed carbon, ochr yn ochr â buddsoddiadau mewn datrysiadau buddsoddi sy'n ymwybodol o'r hinsawdd. Y mae ymgynghoriad wedi bod ar adroddiadau'r Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ond nid yw'r gofynion wedi eu cwblhau eto. Mae'r Gronfa wedi llunio ei hadroddiad cyntaf flwyddyn yn gynnar, gyda'r bwriad o fireinio'r dull gweithredu a'i wneud yn unol â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol pan fyddant wedi eu gwneud.

Parthed adroddiad y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy’n gysylltiedig â’r Hinsawdd, pwysleisiodd Mr Gaston y canlynol:

- Mae adroddiadau’r Tasglu wedi eu hanelu at gwmnïau, rheolwyr asedau a pherchnogion asedau (gan gynnwys cronfeydd pensiynau). Yr oedd y Gronfa’n ystyried hyn fel fframwaith arferion gorau, gan annog datgeliadau cywir, llywio’r gwaith o wneud penderfyniadau da parthed newid hinsawdd, ac annog safoni ledled y farchnad i ganiatáu i fuddsoddwyr nodi, asesu a rheoli’r risgiau a chyfleoedd.
- Y pedwar piler sy’n cynnal y fframwaith yw Llywodraethu, Strategaeth, Rheoli Risg, a Metrigau a Thargedau. Strwythurwyd yr adroddiad drafft ar y seiliau hyn.

Aeth Mr Gaston yn ei flaen i roi crynodeb o’r pedwar piler fel y’u hamlinellir yn yr adroddiad.

Dywedodd Mr Hibbert nad oedd yr asesiad a ddarparwyd yn cynnwys Dyraniad Asedau Tactegol y Gronfa. Nododd fod asesiad blaenorol wedi dangos bod gan y portffolio Tactegol ddwysedd carbon uwch am bob punt a fuddsoddir na’r mwyafrif o ddosbarthiadau asedau eraill, os nad y cyfan. Gofynnodd Mr Hibbert pam yr hepgorwyd y dyraniad hwn o’r asesiad presennol. Eglurodd Mr Gaston fod y Dyraniad Asedau Tactegol wedi ei gynnwys yn yr asesiad o fewn gwahanol fetrigau yn unol â faint oedd ar gael, a nodwyd y rhain yn yr atodiadau. Yr oedd y canlyniadau hynny’n dangos bod gan nifer o’r daliadau hynny ddwysedd carbon uwch na gweddill y portffolio. Nid yw’r Gronfa wedi gosod canllawiau a thargedau ffurfiol ynglŷn â’r daliadau hynny eto, a nodwyd hyn fel cam nesaf o ran ehangu’r gwaith o osod targedau y tu hwnt i’r Ecwitïau Rhestredig i’r portffolio ehangach.

Cyfeiriodd Mr Hibbert at ddatganiad ar dudalen 37, “Mae gan y Gronfa ymrwymiad i arfer ei hawliau perchnogaeth ynghlwm wrth ei buddsoddiadau”, a gofynnodd pwy oedd yn ymdrin â hyn mewn perthynas â stociau a rheolwyr cronfa yn y Dyraniad Asedau Tactegol. Eglurodd Mr Gaston fod ymgysylltiad dyddiol wedi ei ddirprwyo i reolwyr buddsoddi’r cronfeydd sylfaenol sy’n ffurfio’r Dyraniad Asedau Tactegol, a byddai gan y rheolwyr hyn gyfrifoldeb i ymgysylltu â’r cwmnïau y buddsoddir ynddynt a’u dwyn i gyfrif, yn ogystal â phleidleisio.

Gofynnodd Mr Hibbert a oes unrhyw dystiolaeth bod y rheolwyr yn gwneud hyn, gan nad oedd wedi nodi unrhyw adroddiadau am ymgysylltu. O ystyried natur dwysedd carbon uchel y cwmnïau hynny, teimlai y byddai’n bwysig derbyn y diweddariadau hyn yn rheolaidd. Nododd Mr Gaston y gallai’r Gronfa ganfod y wybodaeth hon. Nid oedd hyn yn ffurfio rhan ffurfiol o’r gwaith adrodd i’r Pwyllgor ar hyn o bryd, ond byddai’r Gronfa’n disgwyl i’r rheolwyr hynny ymgymryd â stiwardiaeth arferion gorau.

Ychwanegodd Ymgynghorydd Buddsoddi’r Gronfa, Mr Harkin, er eglurder, fod y Gronfa wedi buddsoddi yn ei hanfod yng nghynnyrch cronedig y rheolwr.

Oherwydd bod y mandad wedi ei fuddsoddi mewn cronfeydd cronedig sylfaenol ar y platfform Mobius Life, nid yw buddsoddwyr yn gallu ymgysylltu na phleidleisio ar ran y Gronfa.

Cyfeiriodd Mr Hibbert at dudalen 37, at y datganiad “Mae’r Gronfa’n integreiddio materion ESG yn ystod pob cam o broses gwneud penderfyniadau buddsoddi’r Gronfa”, gan nodi ei farn nad oedd y Gronfa’n integreiddio hyn i’r Dyraniad Asedau Tactegol. Eglurodd Mr Harkin fod buddsoddiad y Gronfa gyda chynnyrch cronedig y rheolwr, ac y byddai Swyddogion a chynghorwyr y Gronfa’n mynd ag ef ymaith i ystyried sut i sicrhau ymgysylltiad priodol â’r rheolwyr sylfaenol. O ystyried mai fersiwn drafft o’r adroddiad oedd hwn, awgrymodd Mrs McWilliam fod swyddogion a chynghorwyr yn derbyn sylwadau Mr Hibbert i’w hystyried yn fersiwn nesaf yr adroddiad. Gofynnodd y Cadeirydd i Mr Hibbert a oedd yn cytuno â hyn, ac yr oedd ef yn fodlon gyda’r cam gweithredu.

Ymhellach at hyn, dywedodd Mr Latham fod y cynllun hyfforddi’n cynnwys sesiwn wedi ei chynllunio ar bortffolio Syniadau Gorau y Dyraniad Asedau Tactegol, er mwyn rhoi gwell syniad i holl aelodau’r Pwyllgor am sut oedd yn gweithio, a byddai hynny efallai o gymorth tuag at eu dealltwriaeth o’r maes hwn.

Aeth Mr Gaston drwy adroddiad Dadansoddiad ar gyfer Trawsnewid Hinsawdd gyda’r Pwyllgor. Cynhaliwyd y dadansoddiad hwn ar 31 Mawrth 2022, gydag adroddiad y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy’n gysylltiedig â’r Hinsawdd yn cwmpasu’r 12 mis hyd at yr un dyddiad. Yr oedd Dyraniad Asedau Tactegol Syniadau Gorau wedi ei gynnwys yn y dadansoddiad hwn lle’r oedd digon o ddata ar gael am y cronfeydd sylfaenol. Yr oedd y ddogfen hon yn rhoi sylw i fonitro’r targedau’r oedd y Gronfa wedi eu gosod, a deall gallu’r Gronfa i drawsnewid o fewn yr ecwiti rhestredig, ecwiti synthetig a chyfran restredig portffolio Credyd Aml-ased Partneriaeth Pensiwn Cymru Russell, a oedd â data ar ei gyfer.

Eglurodd Mr Gaston fod y dadansoddiad wedi ei fwriadu hefyd i lywio cynllun gweithredu wedi ei ddiweddaru, i ddeall sut all y Gronfa ehangu dadansoddiad o fewn Ecwitïau Rhestredig a, thros amser, i osod targedau ffurfiol drwy’r portffolio cyfan, gan gynnwys y Dyraniad Asedau Tactegol.

Gofynnodd Mr Hibbert am eglurhad am y geiriau “yn ystyrlon” wrth gyfeirio at ganfyddiad allweddol ar dudalen 22 bod “amlygiad tanwydd ffosil wedi gostwng yn ystyrlon o ran olew, nwy a glo”. Dyfynnodd Mr Gaston ffigyrau a gynhwyswyd yng nghrynodeb gweithredol adroddiad y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy’n gysylltiedig â’r Hinsawdd ar dudalen 32, sy’n datgan bod cyfanswm yr allyriadau posibl o gronfeydd tanwydd ffosil (yn cynnwys glo, olew a nwy) wedi gostwng 29% dros y cyfnod o 12 mis. Dros yr un cyfnod, yr oedd amlygiad i allyriadau glo wedi gostwng 72%, ac amlygiad i allyriadau olew a nwy wedi gostwng 14%.

Gofynnodd Mr Hibbert a oedd gwerth absoliwt y Gronfa ynghlwm â’r amlygiad wedi gostwng hefyd. Eglurodd Mr Gaston fod yr amlygiad i gwmnïau ag

ychydig o amlygiad i danwydd ffosil wedi cynyddu dros y cyfnod, ond yr oedd y mesur a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn yn ystyried yr allyriadau posibl o danwydd ffosil am bob biliwn o ddoleri a fuddsoddwyd, felly yr oedd y cyfeiriad at yr amlygiad i danwydd ffosil wedi ei normaleiddio. Yr oedd gwerth y bunt a fuddsoddwyd mewn cwmnïau a oedd wedi cael unrhyw amlygiad i danwydd ffosil wedi cynyddu yn y 12 mis diwethaf. Nododd Mr Hibbert yr anhawster y byddai'r Gronfa yn ei gael wrth gyfathrebu hyn yn glir, pe gofynnid iddi. Eglurodd Mr Gaston ei fod ef yn credu bod y metrig allyriadau a ddefnyddiwyd yn fwy ystyrlon na'r amlygiad i gwmnïau gydag unrhyw gronfeydd tanwydd ffosil, oherwydd bydd gan rai cwmnïau fwy o amlygiad nag eraill. Fodd bynnag, yr oedd y ddau'n cael eu monitro a'u cynnwys yn yr atodiadau.

Amlinellodd Mr Gaston feysydd allweddol yr awgrymir bod y Gronfa'n canolbwyntio arnynt dros y 12 i 18 mis nesaf, gan bwysleisio'r canlynol yn benodol:

- Yn ogystal â'r ffocws parhaus ar ddatgarboneiddio, dylai'r Gronfa hefyd barhau i ganolbwyntio ar gwmnïau sydd â ffocws ar ddatrysiadau hinsawdd, megis yr £50 miliwn a ymrwymwyd yn ddiweddar i Ynni Glân yng Nghymru.
- Dylai'r Gronfa hefyd ystyried pa lwybrau allyriadau y mae pob cwmni wedi alinio â hwy, er enghraifft 1.5 gradd yn unol â Chytundeb Paris, neu lwybr uwch yn cynhesu 4 gradd, ac ati.
- Ymgysylltu a stiwardiaeth – mae'r dadansoddiad wedi dechrau edrych ar i ba raddau yr ymgysylltir â chwmnïau sy'n cynhyrchu'r gyfran uchaf o allyriadau neu i ba raddau y maent ar lwybr carbon isel. Y mae angen ystyried sut mae hyn yn cyfuno gydag ymdrechion stiwardiaeth drwy PPC (Partneriaeth Pensiwn Cymru) a Robeco.

Gofynnodd Mr Hibbert, ynglŷn ag ymgysylltu, a yw'n glir pryd fydd y Gronfa'n gwneud y penderfyniad i ddadfuddsoddi os nad yw'r ymgysylltu'n llwyddiannus. Atebodd Mr Gaston fod posibilrwydd o ddadfuddsoddi, o edrych ar Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi, ond ni wnaethpwyd hyn hyd yma. Yr oedd y dadansoddiad o adnodd Dadansoddiad ar gyfer Trawsnewid Hinsawdd a gynhaliwyd gan Mercer ar ran y Gronfa wedi nodi'r 'cwmnïau llwyd' (y cwmnïau hynny gyda dwysedd carbon uchel iawn, sy'n dangos potensial cyfyngedig ar gyfer trawsnewid ar hyn o bryd), ac wedi dechrau gwneud gwaith monitro er mwyn nodi'r stociau allweddol a oedd â'r dwysedd carbon uchaf a risg newid hinsawdd uchel. Yr oedd angen trafodaeth ehangach gyda Robeco a PPC ynglŷn â sut y maent yn ymgysylltu, ac os na welir digon o gynnydd dros gyfnod o amser, byddai dadfuddsoddi yn rhywbeth y dylid ei ystyried. Cyfeiriodd Mr Hibbert at gyhoeddiad gan British Petroleum (BP) ynglŷn â'i fuddsoddiad mewn mwy o gloddio a phuro. Amlygodd y risg na fyddai rhai cwmnïau'n gwneud newidiadau er mwyn trawsnewid i ddull gweithredu carbon is am y ddwy flynedd nesaf, o leiaf. Byddai hynny'n amser hir i aros heb i'r Gronfa gael llwybr clir ar gyfer symud i ddadfuddsoddi.

Aeth Mr Gaston yn ei flaen i amlinellu'r prif feysydd y byddai'r Gronfa'n canolbwyntio arnynt yn y dyfodol agos, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad. Y pwnc allweddol olaf oedd bioamrywiaeth, a byddai'r ffordd y mae'n rhyngweithio â newid hinsawdd yn hollbwysig er mwyn i'r Gronfa gyrraedd targedau sero net dros amser.

Nododd y Cynghorydd Wedlake ei bryderon am y materion yr oedd Mr Hibbert wedi eu codi ynglŷn â'r datganiadau yn yr adroddiad a'r penderfyniadau a oedd yn sail i ganlyniadau tebygol dros y blynyddoedd nesaf. Cytunodd y Cynghorydd Swash gyda sylwadau'r Cynghorydd Wedlake. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r meysydd hyn yn cael eu cyflwyno eto i'r Pwyllgor ar gyfer eu hystyried ymhellach.

**PENDERFYNWYD:**

Ystyriwyd, trafodwyd a nodwyd adroddiad y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd ac adroddiad y Dadansoddiad ar gyfer Trawsnewid Hinsawdd, a oedd yn cwmpasu'r cyfnodau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022, gan y Pwyllgor.

## 38. ADOLYGIAD A DATGANIAD Y STRATEGAETH FUDDSODDI

Cyflwynodd Mr Harkin o Mercer yr argymhellion yn dilyn Adolygiad y Strategaeth Fuddsoddi, a Datganiad arfaethedig y Strategaeth Fuddsoddi, gan bwysleisio'r canlynol:

- Yr oedd proses adolygu Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi wedi ei hoedi rywfaint oherwydd yr effaith a gafodd cyllideb fechan y Canghellor blaenorol ar farchnad Fondiau Llywodraeth y DU a ffactorau eraill sydd wedi dadsefydlogi marchnad y DU.
- Effaith cronni a thrawsnewidiad y Gronfa i ddefnyddio cyfalaf drwy PPC.
- Themâu cyfredol gan gynnwys yr argyfwng ynni, digwyddiadau geowleidyddol, chwyddiant, a'r cyfle i elwa o drawsnewidiadau.
- Rôl y dosbarthiadau asedau cyfredol, gan gynnwys y Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod, sydd â rôl gefndirol bwysig o ran mantoli risgiau ar gyfer y Gronfa.
- Yr oedd enillion disgwyliedig y Gronfa yn fwy na'r gyfradd ostyngiad yr oedd ei hangen gan Actiwari'r Gronfa.

Eglurodd Mr Harkin y rhesymau dros y mân newidiadau i'r dyraniad asedau, a oedd yn cynnwys:

- Lleihau cydran ecwitïau'r marchnadoedd sy'n datblygu o 10% i 5%. Byddai'r 5% dros ben yn cael ei symud i Ecwitïau Marchnadoedd Datblygedig, a fyddai yn y pen draw yn cael ei fuddsoddi yng Nghronfa Gynaliadwy Ecwiti Byd-eang PPC.
- Lleihau dyraniad y Gronfa Fantoli o 7% i 5%. Dyrennid y 2% dros ben i'r Gronfa Leol / Effaith. Ychwanegodd Mr Dickson y byddai'r dyraniad Lleol /

Effaith 6% hwn – yn ogystal ag adlewyrchu athroniaeth gynaliadwy ac athroniaeth effaith y Gronfa – yn cyd-fynd ac yn mynd y tu hwnt i gynlluniau disgwyliedig y Llywodraeth i gyflwyno'r orfodaeth i leoli 5% o asedau'n lleol – gyda 'lleol' yn golygu o fewn y DU.

Dywedodd Mr Hibbert – ynglŷn â'r buddsoddiad Ffyniant Bro ac Effaith – y bydd anhawster am fod effaith tai fforddiadwy / cymdeithasol yn cael ei ganolbwyntio yn y de-ddwyrain, felly byddai diffyg cyfleoedd buddsoddi wedi eu canoli mewn lleoedd eraill yn y DU.

Gofynnodd Mr Hibbert hefyd i Gylch Gorchwyl Portffolio Dyraniad Tactegol, y cyfeirir ato ar dudalen 144, gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w adolygu. Cytunodd Mr Harkin, a nododd y bydd yn cael ei adolygu yn unol â'r gwaith arfaethedig i ymgorffori fframwaith buddsoddi cyfrifol newydd i'r Dyraniad Asedau Tactegol.

Cyfeiriodd Mr Hibbert at Ddatganiad arfaethedig y Strategaeth Fuddsoddi ar dudalen 155, a gofynnodd am ychwanegu cyfeiriad at gynrychiolydd aelodau cynllun heb bleidlais ar y Cydbwyllgor Llywodraethu. Cytunodd Mrs McWilliam y byddai hyn yn ychwanegiad defnyddiol. Cyfeiriodd Mr Hibbert hefyd at dudalen 160, sy'n datgan mai "Ymgysylltu yw'r dull gorau o alluogi'r newid…", ac eto amlygodd yr angen am eglurder ynglŷn â phryd y gwneid penderfyniad am ddadfuddsoddi.

Mewn perthynas â'r argymhellion, dywedodd y Cynghorydd Swash ei fod wedi rhoi ei farn o'r blaen bod dyddiad targed sero net y Gronfa, sef 2045, yn rhy hwyr. Pwysleisiodd fod Awdurdod Pensiynau De Swydd Efrog wedi cytuno ar 2030 fel targed. Cyfeiriodd y Cynghorydd Swash at Ddatganiad arfaethedig y Strategaeth Fuddsoddi (tudalen 161), gan amlygu targedau allyriadau carbon allweddol o fewn y Portffolio Ecwitïau Rhestredig. Cynigiodd y Cynghorydd Swash ddiwygiad i'r paragraff hwn i ychwanegu nod ychwanegol i leihau amlygiad i gwmnïau sy'n cloddio am danwydd ffosil, neu gwmnïau y mae eu prif fusnes yn ymwneud â masnachu tanwydd ffosil, 100% erbyn 2030.

Cynghorodd Mrs McWilliam y Pwyllgor, er mwyn sicrhau llywodraethu cywir, dylai bod mater diwygio Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi gyda tharged buddsoddi newydd fod yn amodol ar y Pwyllgor yn derbyn cyngor ffurfiol ar y diwygiad arfaethedig a'i effaith. Argymhellodd y dylai Swyddogion a chynghorwyr ymchwilio ymhellach i oblygiadau'r cynnig, ac y dylid ystyried y mater ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol gyda'r cyngor priodol ar addasrwydd y diwygiad.

Nododd y Cynghorydd Ellis gynnig y Cynghorydd Swash, a dywedodd y byddai'n gwerthfawrogi cyngor ar y mater.

Nododd y Cynghorydd Wedlake, pe bai'r eitem hon yn cael ei gohirio er mwyn cael cyngor, byddai'n fuddiol cael cyngor yn datgan goblygiadau'r diwygiad. Teimlai y byddai'n bersonol yn cael anhawster derbyn Datganiad y

Strategaeth Fuddsoddi heb y wybodaeth hon, o ystyried egwyddorion sylfaenol dull gweithredu'r Gronfa o ran Buddsoddi Cyfrifol. Dywedodd Mr Hibbert ei fod yn cytuno â'r Cynghorydd Wedlake.

Wedyn, gofynnodd Mrs McWilliam i Mr Harkin a Mr Latham egluro a oedd unrhyw beth yn y papur drafft yr effeithid arno pe na chytunid ar yr argymhelliad i gymeradwyo Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi yn y cyfarfod Pwyllgor hwn. Dywedodd Mr Latham na allai'r symudiad i Gronfa Ecwiti Cynaliadwy Gweithredol PPC fynd yn ei flaen os na fyddai'r Pwyllgor yn cytuno ar y dyraniad asedau. Cytunodd Mr Harkin, pe cytunid ar newidiadau'r dyraniad asedau, ni fyddai unrhyw effaith uniongyrchol ar oedi cytundeb ar Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi tra mae'r Pwyllgor yn ystyried y diwygiad arfaethedig. Dywedodd Mr Latham yr ymgynghorwyd â gweithwyr Cronfa Bensiynau Clwyd ynglŷn â Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi fel y mae ar hyn o bryd. Awgrymodd Mr Latham felly fod y Pwyllgor yn ystyried cymeradwyo'r argymhelliad cyntaf yn ymwneud â newidiadau i'r dyraniad asedau, ac y gall y Pwyllgor ddychwelyd i ystyried y diwygiadau i Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi, gan gynnwys y diwygiad arfaethedig gan y Cynghorydd Swash, yn ddiweddarach. Fodd bynnag nododd, o ystyried y rhaglen lawn ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth a'r amser y byddai Swyddogion ei angen i gael cyngor buddsoddi wedi ei reoleiddio'n gywir ar y diwygiad arfaethedig, ei bod yn debygol y byddai'n rhaid gohirio adolygu Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi tan gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin.

Nododd y Cynghorydd Swash y byddai'n fodlon derbyn yr argymhelliad cyntaf, ond gohirio'r ail argymhelliad hyd nes byddant wedi derbyn cyngor pellach.

Cytunodd y Cadeirydd i gynnal pleidlais ffurfiol, a wnaed gan Mrs McWilliam. Parthed yr argymhelliad i gytuno ar y newidiadau i Ddyraniad Asedau Strategol y Gronfa, pleidleisiodd y Pwyllgor yn unfrydol i gymeradwyo'r argymhelliad. Parthed yr ail argymhelliad i gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi, dyma ganlyniad y bleidlais:

- Un bleidlais dros dderbyn yr argymhelliad.
- Chwe phleidlais yn erbyn derbyn yr argymhelliad.
- Ymatalodd un Aelod rhag pleidleisio.

Ni chytunwyd felly ar yr ail argymhelliad.

Gofynnodd Mrs McWilliam i'r Cynghorydd Swash ddarparu manylion y diwygiad arfaethedig i'r Gronfa ei ystyried a sicrhau y byddai cyngor priodol yn cael ei ddarparu.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cytunodd y Pwyllgor ar y newidiadau i Ddyraniad Asedau Strategol y Gronfa.

(b) Pleidleisiodd y Pwyllgor i ohirio cymeradwyo Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi tan gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin er mwyn gallu derbyn mwy o gyngor ar ddiwygiad posibl i'r Datganiad drafft presennol.

39. **DATGANIAD STRATEGAETH GYLLIDO**

Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i Mr Middleman, Actiwari'r Gronfa, i fynd drwy bwyntiau allweddol yr adroddiad gyda'r Pwyllgor.

- Yn dilyn cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Gyllido drafft gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd, yr oedd yr ymgynghoriad â chyflogwyr yn annog cyflogwyr i ddarparu adborth. Darparodd nifer o gyflogwyr ymatebion cadarnhaol yn gyffredinol mewn perthynas â llunio'r strategaeth, a oedd yn caniatáu'r hyblygrwydd i gyflogwyr i reoli eu cynaliadwyedd ariannol eu hunain yng nghyd-destun sefyllfa gyllido well y Gronfa.
- Yr oedd Datganiad y Strategaeth Gyllido yn gosod fframwaith gyda gofyniad isafswm cyfraniad cyflogwr yr oedd y Gronfa'n ei deimlo oedd yn gynaliadwy; fodd bynnag, mynegodd nifer o gyflogwyr fwriad i dalu mwy na'r isafswm gofynnol hwn er mwyn cynorthwyo cynaliadwyedd cyfraniadau ymhellach. Nododd Mr Middleman fod hyn yn ganlyniad cadarnhaol a'i fod yn dangos bod y negeseuon ynglŷn â chynaliadwyedd wedi eu clywed ac y gweithredwyd arnynt.
- Yn dilyn ymgysylltu â'r cyflogwyr, ni chafwyd unrhyw newidiadau i ragdybiaethau sylfaenol yn yr adroddiad ers i'r Pwyllgor dderbyn y drafft. Tynnodd Mr Middleman sylw tuag at baragraffau 1.08 ac 1.09, a oedd yn rhoi sylw i ddau newid i'r strategaeth ers y drafft.
    - Yr oedd risg hinsawdd wedi ei feintioli gan yr actiwari gan ddefnyddio goblygiadau o dan wahanol sefyllfaoedd. Gwnaed hyn ar sail gyson i ddadansoddiad ar yr enillion disgwyliedig, fel y trafodaethau cynharach.
    - Ychwanegwyd geiriad i'r polisi Terfynu yn nodi y gall cyflogwyr adael y Gronfa gyda chredyd neu ddyled ymadael, gan alluogi'r gallu ffurfiol i adolygu'r polisi, ond nodwyd nad oedd disgwyl i unrhyw rai o'r cyflogwyr, neu lawer ohonynt, adael y Gronfa.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r gweithgareddau fu ers y cyfarfod ym mis Tachwedd 2022, gan gynnwys ymgysylltu â chyflogwyr.
(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Datganiad y Strategaeth Gyllido.

40. **DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU**

Rhoddodd Mr Hughes y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Fuddsoddi ac Ariannu, gan amlygu'r canlynol:

- Mewn perthynas â diweddariad y cynllun busnes, yr oedd pob un namyn un o’r tasgau allweddol a amlygwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor wedi eu cwblhau – manylion yn 1.01.
- Cyhoeddodd Adran Codi’r Gwastad, Tai a Chymunedau (DLUHC) ymgynghoriad yn ddiweddar yn cynnig newidiadau i broses rheoli costau’r Bwrdd Cynghori Cynllun – crynodeb yn 1.03. Ni ddisgwylid i hyn gael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Gronfa.
- Cydnabuwyd y Gronfa yn Gronfa Bensiynau y Flwyddyn yng Ngwobrau Effaith Environmental Finance.
- Amlygodd Mr Hughes adroddiad gan Robeco ar effaith gymdeithasol Deallusrwydd Artiffisial, ymysg astudiaethau eraill.
- Mae’r Gronfa’n parhau i nodi cyfleoedd cynaliadwy, ac mae wedi gwneud dau ymrwymiad yn ddiweddar. Sef:
    - £15 miliwn i Newcore (Cronfa V), rheolwr eiddo tirol yn y DU, yn arbenigo mewn isadeiledd cymdeithasol.
    - £17 miliwn (tua $20 miliwn) i Sandbrook (Cronfa I), cronfa isadeiledd hinsawdd cyntaf rheolwr o UDA.
- Yr oedd y Gronfa wedi llenwi swydd wag Cynorthwyydd Gweinyddol Llywodraethu’n ddiweddar, fodd bynnag, y mae dwy swydd wag yn parhau i fod yn y tîm Cyllid. Y flaenoriaeth oedd llenwi swydd y Prif Gyfrifydd, a oedd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD**:

Bod y Pwyllgor wedi ystyried a nodi diweddariad Buddsoddi ac Ariannu.

## 41. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GRONNI ASEDAU

Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am gronni gan Mr Latham, Pennaeth y Gronfa Bensiynau, ac amlygodd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Ysgrifennodd y Gronfa’n wreiddiol i PPC i ofyn am Gronfa Ecwiti Cynaliadwy Gweithredol, a byddai pob un o’r 8 cronfa yng Nghymru bellach yn gwneud buddsoddiadau i hwn. Disgwylid i’r gronfa ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2023, gan olygu na fyddai effaith dyraniad 15% arfaethedig y Gronfa’n dod i rym tan ar ôl dyddiad adrodd y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy’n gysylltiedig â’r Hinsawdd ym mis Mawrth 2023. Felly, nid adroddid arno tan fis Medi 2024, yn seiliedig ar y data fel ag y bydd ym mis Mawrth 2024.
- Ni fu diweddariad yn ymwneud â materion Link Fund Solutions Ltd ers trafodaeth ddiwethaf y Pwyllgor. Pe bai’r Awdurdod Cynnal yn darparu diweddariad pellach, byddai’r wybodaeth hon yn cael ei hanfon ymlaen at y Pwyllgor.
- Yr oedd PPC yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar gaffael contract y gweithredwr. Bydd Mr Latham a Mrs Fielder yn mynd i ddigwyddiadau ymgysylltu gyda phartïon sydd â diddordeb yng Nghaerdydd, ynghyd â chyfarfod rheolwyr eiddo PPC posibl.

- Parthed Marchnadoedd Preifat, byddai'r ymrwymiadau ar gyfer Credyd Preifat, Ecwiti Preifat ac Isadeiledd yn barod i fynd y flwyddyn nesaf. Yr oedd ystyriaethau'n cael eu gwneud ynglŷn â sut i reoli cost hyn. Y bwriad oedd defnyddio Mercer ar gyfer y Portffolio Effaith, hyd nes y bydd rhywbeth cyfwerth ar gael o fewn PPC.
- Cynhelid hyfforddiant PPC ar 27 Chwefror, yn cwmpasu llawer o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod hwn, ac yr oedd gwahoddiad i holl aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd.

Parthed y polisi benthyca stoc, gwnaeth Mr Hibbert sylw am yr eglurhad bod PPC yn gallu benthyca hyd at 95% o unrhyw stoc, am ffi. Gofynnodd Mr Hibbert a oes unrhyw fwriad i atal benthyca stoc dros y cyfnod pleidleisio fel y gellid eu hadalw. Nododd hefyd fod swm y cyfranddaliadau a bleidleisiwyd yn adroddiad Robeco yn ymddangos yn eithriadol o isel, a gofynnodd am eglurhad am hyn.

Parthed ail gwestiwn Mr Hibbert ynglŷn â swm y cyfranddaliadau a bleidleisiwyd, cadarnhaodd Mr Latham y byddai'n ymchwilio i hyn. Ynglŷn â'r cwestiwn am fenthyca stoc, eglurodd Mr Latham fod cynrychiolwyr y Gronfa wedi bod mewn sesiwn hyfforddi ar fenthyca stoc, a oedd yn agored i aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu'n unig. Disgwyliai y byddai hyn yn arwain at gyflwyno adroddiad i Gydbwyllgor Llywodraethu PPC ar fenthyca stoc, yn cwmpasu'r pwyntiau a godwyd gan Mr Hibbert ynglŷn ag adalw stoc at ddibenion pleidleisio. Yr oedd Mr Latham yn tybio mai safbwynt y Gronfa fyddai i adalw'r stociau hynny er mwyn gallu pleidleisio arnynt, ond gofynnodd i'r Cadeirydd, a oedd hefyd yn bresennol yn yr hyfforddiant, i gadarnhau hyn, ac fe wnaeth.

Dywedodd Mr Hibbert ei fod yn falch bod cynnydd yn cael ei wneud ar y mater hwn. Gofynnodd Mr Hibbert ynglŷn â chytundeb blaenorol y Pwyllgor i ysgrifennu at Robeco ynglŷn â hwy'n pleidleisio ar gwmnïau yn y diwydiant petrocemegol yn cynnal gwaith archwilio er mwyn cynyddu elw, a gofynnodd a oedd y llythyr wedi ei anfon. Nododd Mrs Fielder nad oedd hyn wedi ei wneud eto, gan ei bod wedi bod yn aros i Mr Hibbert egluro union eiriad y cwestiwn i'w anfon i Robeco. Cadarnhaodd Mr Hibbert fod hyn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad blaenorol.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Nododd y Pwyllgor y diweddariad, a'i drafod.

## 42. <u>DIWEDDARIAD AR YR ECONOMI A'R FARCHNAD A'R STRATEGAETH FUDDSODDI A CHRYNODEB RHEOLWYR</u>

Cafwyd crynodeb o amgylchedd a sefyllfa'r farchnad dros y flwyddyn ddiwethaf gan Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa, Mr Dickson, ac amlygodd ffactorau a fu'n effeithio ar farchnadoedd dros y flwyddyn ddiwethaf a'r chwarter

diwethaf. Yna, eglurodd Mr Dickson sut oedd hyn wedi effeithio ar berfformiad y Gronfa:

- Dros y chwarter diwethaf (30 Medi i 31 Rhagfyr) yr oedd asedau'n wastad.
- Dros y flwyddyn yr oedd perfformiad y Gronfa wedi gostwng yn gyffredinol o 10.6%, gyda llai o enillion yn enwedig mewn ecwitïau a chredyd aml-ased. Cynhyrchodd Marchnadoedd Preifat enillion cadarnhaol ar gyfer y Gronfa, yn enwedig gyda Sterling yn gwanhau, fel ag y gwnaeth y Dyraniad Asedau Tactegol a'r cronfeydd mantoli.
- Yr oedd yr olwg tair blynedd – sy'n bwysig ar gyfer dull gweithredu hirdymor y Gronfa – yn parhau i ddangos enillion cadarnhaol.
- Rhoddodd Mr Dickson y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad ers dechrau'r flwyddyn galendr pan fo'r marchnadoedd wedi bod yn gadarnhaol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodwyd perfformiad y Gronfa dros gyfnodau hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2022 gan y Pwyllgor, ynghyd â diweddariad y Farchnad a'r Economi, a oedd i bob pwrpas yn egluro'r sefyllfa.

43. **FFRAMWAITH RHEOLI RISG, LLWYBR HEDFAN A CHYLLID**

Aeth Mr Middleman drwy'r adroddiad hwn gyda'r Pwyllgor, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Yr oedd y llwybr hedfan a'r fframwaith cyffredinol yn gweithio fel y disgwylid yn dilyn y cyfnod anwadal.
- Gwnaed nifer o newidiadau i gynnal digon o hylifedd er mwyn i'r fframwaith weithio fel y disgwyl.
- Yr oedd lefel yr ariannu ar y dyddiad prisio, 31 Mawrth 2022, yn 105%, a bu gostyngiadau bychain dros y flwyddyn ond erbyn diwedd mis Rhagfyr yr oedd hyn wedi dychwelyd i 105%, ac arhosodd o gwmpas y ffigwr hwnnw.

Dywedodd Mr Middleman, ar adegau o anwadalrwydd, yr oedd rhaid gwneud unrhyw newidiadau i ymateb i newidiadau yn y farchnad yn gyflym. Arweiniodd hyn at y newidiadau a awgrymwyd i egluro dirprwyaethau i Bennaeth y Gronfa yn atodiad yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn ystyried cynnwys yr adroddiad.
b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r diweddariadau arfaethedig i Gynllun Dirprwyo'r Gronfa.

44. **<u>COFNODION Y BWRDD PENSIYNAU (30 MEDI 2022)</u>**

Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi ystyried crynodeb o'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod diwethaf.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y Pwyllgor yn nodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiynau a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022.

45. **<u>CYFARFODYDD Y DYFODOL</u>**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor nodi'r dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor:

- 29 Mawrth 2023
- 21 Mehefin 2023

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd gan y Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gymryd rhan. Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 29 Mawrth 2023. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i gyfeirio at ddwy sesiwn hyfforddi sydd ar y ffordd: Hyfforddiant PPC ar Gronfeydd CPLIL a Chyfleoedd Cydweithio ar 27 Chwefror, a sesiwn hyfforddi hanfodol yn ymwneud â Chod Unigol Newydd y Rheoleiddiwr Pensiynau ar 26 Ebrill. Daeth y cyfarfod i ben am 11:32pm.

……………………………………

**Y Cadeirydd**